



Polisi Iechyd a Diogelwch

Enw'r Polisi	Polisi Iechyd a Diogelwch
Cymeradwy-wyd gan	Bwrdd Rheolwyr Popeth Cymraeg
Dyddiad y cymeradwy-wyd	Chwefror 6ed 2020
Dyddiad Adolygiad	Yn unol ag amserlen adolygu Coleg Cambria

Cymeradwy-wyd y polisi hwn yn derfynol ar : Chwefror 6ed 2020

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun Heddwyn Jones'.

Alun Heddwyn Jones
Cadeirydd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ioan Talfryn'.

Ioan Talfryn
Prif Weithredwr Popeth Cymraeg



Mae Popeth Cymraeg wedi ymrwymo i gyflawni, cyn belled â bo'n ymarferol yn rhesymol, y safonau gorau o iechyd, diogelwch a lles ar gyfer pob gweithiwr, dysgwr a phobl eraill y gallai gweithgareddau'r sefydliad effeithio arnynt. Yn ogystal â chydymffurfio'n gaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, bydd y sefydliad yn hybu safonau ardderchog o ran rheoli iechyd, diogelwch a lles a bydd yn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus o ran perfformiad iechyd, diogelwch a lles. Gweithgareddau cefnogi i sicrhau lles staff a diogelu dysgwyr.

Bydd Popeth Cymraeg yn sicrhau bod gweithwyr a dysgwyr yn gweithio mewn amgylchedd diogel, iach a chefnogol a bydd yn gweithredu system rheoli iechyd, diogelwch a lles sy'n integredig, â strwythur ac wedi'i dogfennu . Bydd hyn yn cynnwys:

1. Sicrhau bod pob system waith a risgiau'n cael eu hasesu, bod mesurau rheoli addas yn cael eu nodi a'u cyflwyno, a chynhelir adolygiadau rheolaidd i fesur perfformiad a sicrhau cydymffurfiaid â safonau'r Coleg a safonau deddfwriaethol. Gweithgareddau cefnogi i sicrhau lles staff a diogelu dysgwyr.
2. Darparu'r wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth ofynnol i sicrhau bod pob gweithiwr yn cael eu hyfforddi'n ddigonol ac yn gyfrifol am eu maes rheolaeth am arferion gwaith diogel ac amgylchedd gwaith diogel mewn cydymffurfiaid â gofynion cyfreithiol a safonau'r sefydliad.
3. Sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar yn addas ar gyfer gweithrediad diogel a bod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio, lle nodwyd bod hyn yn fesur rheoli.
4. Darparu, fel bo angen, fod gan yr holl adeiladu a ddefnyddir gan y corff fynedfeydd ac allanfeydd diogel a darparu cyfleusterau lles addas a digonol ar gyfer pob gweithiwr, dysgwr, contractwr ac ymwelydd sy'n ystyried anghenion unigol.
5. Sefydlu a chynnal gweithdrefnau argyfwng ar gyfer holl adeiladau'r sefydliad, gan sicrhau bod y gweithdrefnau'n ddigonol ac yn adnabyddus.
6. Sicrhau bod trefniadau monitro effeithiol, ar ffurf archwiliadau, arolygon, adolygiadau, adroddiadau, dadansoddiadau tuedd ar waith i fonitro a mesur safonau iechyd a diogelwch i gadarnhau bod safonau cyfreithiol yn cael eu bodloni a, lle bo hynny'n bosibl, ceisio gwella ar y safonau hynny.
7. Ymateb yn effeithiol i ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau agos, ac ymchwilio iddynt, i bennu achosion sylfaenol a chymryd camau rhesymol i atal ailddigwydd.
8. Sicrhau bod cofnodion cywir a'r holl ddogfennaeth ofynnol mewn lle i fodloni gofynion cyfreithiol a gofynion y sefydliad.
9. Ymgynghori yn rheolaidd, gan gynnwys gweithwyr, dysgwyr ac undebau, a chyfathrebu â nhw, ynglŷn â materion lechyd a Diogelwch.
10. Annog pob gweithiwr, dysgwr, contractwr ac ymwelydd i gyfrannu tuag at ddatblygu diwylliant diogelwch positif trwy ddylanwadu ar ymddygiad a chefnogi dull rhagweithiol o ymdrin ag iechyd a diogelwch.
11. Cynnal a chefnogi gweithdrefn lechyd a Diogelwch effeithiol a phrosesau eraill i ganiatáu ac annog ymgynghori llawn ac effeithiol ar bob agwedd ar iechyd, diogelwch a lles.
12. Darparu adnoddau digonol i gyflawni'r uchod.

Bydd y trefniadau iechyd a diogelwch yn y Coleg yn cael eu hadolygu bob blwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran polisi, amcanion, amgylchiadau neu arferion gwaith.